

Pecyn Cyhoeddus



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

15 Tachwedd 2021

Annwyl Syr / Fadam

Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Iaith o bell trwy fideo-gynhedledda, Dydd Llun, 22 Tachwedd 2021 am 10.00 am i drafod y materion canlynol:

1. **Ymddiheuriadau**
2. **Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu.**
3. **Cadarnahu Cofnodion Cyfarfod 17 Mai 2021 (Tudalennau 3 - 6)**
4. **Materion yn codi o'r cofnodion**
5. **Adroddiad Llafar ar y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg drafft a Throchi**
6. **Adroddiad Llafar ar y Siarter Iaith, dathliadau a Facebook**
7. **Adroddiad ar hyfforddiant Cymraeg i staff yn ystod y cyfnod clo (Tudalennau 7 - 10)**
8. **Adroddiad Blynyddol - Theatr Felinfach (Tudalennau 11 - 14)**
9. **Adroddiad Blynyddol Cered (Tudalennau 15 - 20)**
10. **Enw llefydd Ceredigion (Tudalennau 21 - 64)**
11. **Eitemau Comisiynydd y Gymraeg - er gwybodaeth**
 - Holiadur hunan-asesu
 - Adroddiadau 5 mlynedd Comisiynydd y Gymraeg
 - Sefyllfa'r Gymraeg 2016–20: Adroddiad 5-mlynedd Comisiynydd y Gymraeg
 - Llywodraeth Cymru yn nodi trefniadau pum mlynedd nesaf Cymraeg 2050 | LLYW.CYMRU
 - Adroddiad sicrwydd 2020-21 – 'Camu ymlaen'
 - <https://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/media/lzthr1gm/20210922-dg-c-camu-ymlaen-adroddiad-sicrwydd-2020-21-terfynol.pdf>

Welsh Language Commissioner Items - for information

12. **Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brysgan y Pwyllgor**

Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb

Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.

Yn gywir



Miss Lowri Edwards

Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd

**At: Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Iaith
Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

**Cofnodion Cyfarfod o'r Pwyllgor Iaith a gynhaliwyd
Trwy fideo-gynadledda ddydd Llun, 17 Mai 2021**

Yn bresennol: Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn (Cadeirydd), y Cynghorwyr Keith Evans, Alun Lloyd Jones, Gareth Lloyd, Dai Mason a John Roberts

Swyddogion yn bresennol: Mrs Meinir Ebbsworth –Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion, Mr Silyn Roberts – Cynghorydd Herio, Mrs Menna Jones – Uwch Athro Bro, Miss Lowri Edwards –Swyddog Arweiniol Corfforaethol-Gwasanaethau Democrataidd, Ms Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol, Gwasanaethau Democrataidd, Dr Sarah Groves-Phillips-Rheolwr Polisi Cynllunio, Mrs Dana Jones, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Safonau

(10:00am-12.05pm)

1 Ymddiheuriadau

Dim.

Dymunwyd y gorau i Mrs Carys Morgan, Swyddog Iaith yn ystod ei thriniaeth ar hyn o bryd.

2 Datgelu Buddiant Personol / Buddiant sy'n Rhagfarnu

Ni ddatgelwyd dim buddiant personol na buddiant sy'n rhagfarnu.

3 Cadarnhau fel cofnod cywir gofnodion cyfarfod y Pwyllgor Iaith a gynhaliwyd ar 07 Rhagfyr 2021

PENDERFYNWYD cadarnhau fel cofnod cywir gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 07 Rhagfyr 2021.

4 Materion sy'n codi o'r Cofnodion

Dim

5 Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg

Rhoddodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion ddadansoddiad i'r Aelodau o'r broses o weithredu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, i gynnwys y broses ddemocrataidd a'r broses ymgynghori. Dywedwyd bod Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn gynllun 10 mlynedd ar gyfer 2022-2032 ac y byddai'n cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Ionawr 2022. Cynlluniwyd yn unol â 7 deiliant statudol er mwyn datblygu a chryfhau lle'r Gymraeg o fewn addysg.

Deiliant 1: Rhagor o blant meithrin/ tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

Deiliant 2: Rhagor o blant dosbarth derbyn/ pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

Deiliant 3: Rhagor o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall

Tudalen 4

Deiliant 4: Rhagor o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg

Deiliant 5: Rhagor o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol

Deiliant 6: Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ("ADY") (yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018)

Deiliant 7: Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg

Rhoddodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol-Ysgolion y wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am sefyllfa Ysgolion Ceredigion ar bob un o'r deilliannau uchod a'r data i gefnogi'r sefyllfa ar hyn o bryd a sefyllfa'r dyfodol.

Yn dilyn cyflwyniad manwl a chwestiynau o'r llawr, dywedwyd y byddai'r cynllun nawr yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu i'w ystyried ac yna i'r Cabinet gytuno y byddai'n cael ei anfon allan i ymgynghoriad cyhoeddus.

6 **Data am ail gartrefi a llety gwyliau Ceredigion**

Rhoddodd Dr Sarah Groves-Phillips ddiweddariad ar effaith ail gartrefi yn awdurdodau'r arfordir a oedd wedi'i thrafod yn eang yn y cyfryngau yn ddiweddar, a bu galwadau ar i Lywodraeth Cymru gyflwyno cyfyngiadau i'r niferoedd, neu newid y fframwaith cynllunio i gynnig mwy o amddiffyniad i ardaloedd sydd wedi gweld nifer sylweddol o ail gartrefi a llety gwyliau. Mae papur yr adroddiad yn ymchwilio i sut mae'r sefyllfa yng Ngheredigion yn cymharu'n rhanbarthol ac yn tynnu sylw at ardaloedd lle gallai cyfraddau fod wedi cyrraedd lefelau anghynaliadwy yn y sir.

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus ar 03.03.2021. Cytunodd y Pwyllgor i gymeradwyo'r Cynnig a gynigiwyd i'r Cyngor:

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

1. ychwanegu cymal newydd i'r Ddeddf Gynllunio fel ei bod yn orfodol gwneud cais cynllunio cyn cael yr hawl i newid cartref preswyl yn gartref gwyliau neu lety gwyliau
2. addasu fframwaith y polisi i ganiatáu gosod trothwyon o ran uchafswm niferoedd y cartrefi gwyliau mewn ardal benodol
3. ei gwneud yn orfodol i berchnogion ail gartref ofyn am ganiatâd cynllunio cyn newid ail gartref yn fusnes gwyliau neu'n fusnes AirBnB

Cytunodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus hefyd i argymhell i'r Cyngor y codir cynnydd 100% ar dreth y cyngor ar gartrefi gwyliau yn y sir.

Tudalen 5

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, diolchodd yr Aelodau i'r swyddog am adroddiad cynhwysfawr ac wedi ei ysgrifennu'n dda. CYTUNWYD i gefnogi argymhelliad y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus i'r Cyngor.

7 **Adroddiad Monitro Blynyddol - Safonau'r Gymraeg 2020-21**

Ystyriwyd yr Adroddiad ar yr Adroddiad Monitro Blynyddol - Safonau'r Gymraeg 2020-21. Amlinellodd yr adroddiad a gyflwynwyd y cynnydd wrth weithredu gofynion Safonau'r Gymraeg. Yn unol â Safon 158, mae'n rhaid cyhoeddi'r adroddiad erbyn 30 Mehefin 2021.

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD i:-

- (i) derbyn Adroddiad Monitro Blynyddol Safonau'r Gymraeg Cyngor Sir Ceredigion (2020-21) a
- (ii) argymhell y dylid cyflwyno'r adroddiad llawn i Gabinet y Cyngor i'w gymeradwyo ac yna ei gyhoeddi ar wefan gorfforaethol y Cyngor.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar

Cadeirydd:-_____

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Cymraeg Gwaith Cyngor Sir Ceredigion 2020/211) Cyflwyniad

Darparwyd rhaglen gyflawn o ddysgu ffurfiol ac anffurfiol gan brosiect Cymraeg Gwaith Cyngor Sir Ceredigion ym mlwyddyn academaidd 2020/21. Dyma oedd trydedd blwyddyn y rhaglen a drefnir ac a ddarperir gan Swyddog Hyfforddi Cymraeg Gwaith y Cyngor, Dewi Huw Owen, ac a redir mewn partneriaeth rhwng tîm Dysgu a Datblygu'r Cyngor â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Yn sgil cyfyngiadau cyfnod heriol pandemig covid-19, darparwyd holl arlwy rhaglen 2020/21 ar-lein. Bu'n rhaid addasu pob agwedd o'r ddarpariaeth o'u cymharu â'r blynyddoedd blaenorol felly. Gweithiwyd yn galed er mwyn sicrhau llwyddiant i'r trosglwyddiad hwnnw, ac erbyn diwedd y flwyddyn, gwelwyd dathlu llwyddiannau'r rhaglen ar lefel genedlaethol.

Ceir yn yr adroddiad hwn drosolwg cryno ar hynt y prosiect yn ystod 2020/21.

2) Dysgu Ffurfiol

Darparwyd cyrsiau Cymraeg dwys i 70 o staff y Cyngor drwy'r rhaglen Cymraeg Gwaith yn 2020/21.

Yn unol â'r galw amdano, wrth i sgiliau iaith myfyrwyr y rhaglen ddatblygu, darparodd y rhaglen addysg ar 5 lefel eleni, i fyny o 4 lefel yn 2019/20, a 3 lefel yn 2018/19.

Dosbarthwyd y myfyrwyr ar draws y lefelau fel a ganlyn:

Mynediad:	12
Sylfaen:	31
Canolradd:	12
Uwch 1:	9
Uwch 2:	6

Gellir gweld bod 15 myfyriwr wedi dilyn y cyrsiau lefelau Uwch (1 a 2) yn 2020/21. Yr oedd 13 o'r rhain – 9 myfyriwr lefel Uwch 1 a 4 o'r 6 myfyriwr Uwch 2 – wedi cyrraedd y lefelau hyn drwy astudio ar gyrsiau'r rhaglen Cymraeg Gwaith yn y blynyddoedd cynt. Dyma brawf o werth pellgyrhaeddol y dilyniant a ddarperir gan raglen Cymraeg Gwaith wrth ddatblygu sgiliau ieithyddol staff y Cyngor.

Caed ymateb gadarnhaol yn ffurflenni adborth y myfyrwyr i'r cyrsiau a ddarparwyd drwy'r rhaglen.

Soniodd un aelod staff lefel Mynediad am ddefnyddioldeb y cwrs wrth iddynt ddarparu gwasanaethau i'w defnyddwyr gwasanaeth:

The course has been very beneficial within my role and will enable me to communicate better with service users.

Soniodd un aelod staff lefel Canolradd am y cynnydd a fu yn eu defnydd o'r Gymraeg gyda'u cydweithwyr yn sgil astudio ar y cwrs:

Tudalen 8

I have gained much more confidence this year. I'm not afraid to attempt Welsh with my colleagues and ask for their assistance. I now communicate as much as a can with my line manager in Welsh and when responding to Welsh emails.

Esboniodd un myfyriwr lefel Uwch 1 am sut y bu iddynt fagu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd o'u bywyd proffesiynol:

Rwy'n fwy hyderus wrth siarad a phobl ar y ffôn yn Gymraeg yn y gwaith ac y gyffredinol, rwy'n deall cymaint mwy. Mae'r cwrs wedi fy helpu i fagu llawer o hyder ac rwy'n defnyddio'r Gymraeg yn fawr, mae fy ngwaith ar y ffonau ac mae'n ddefnyddiol iawn.

Nododd un myfyriwr Uwch 2 bod addysg ramadegol y cyrsiau Uwch wedi bod o fudd mawr iddynt nhw wrth ddefnyddio'r Gymraeg:

Mae'r cwrs yn helpu fi llawer. Fi'n mwy hyderus i siarad ac ysgrifennu yn y Gymraeg. Dw i'n joio dysgu'r gramadeg yn enwedig.

Canmolwyd y modd yr ymatebwyd i'r her o orfod symud y cyrsiau ar-lein gan nifer o fyfyrwyr, fel a fynegir yma gan un myfyriwr lefel Sylfaen:

Although the move to online teaching wasn't easy, I have been enjoying the Zoom classes, I think Huw is doing a great job, so I just wanted to say thank you.

Bu cymal Dysgu Ffurfiol y rhaglen Cymraeg Gwaith yn llwyddiant yn ystod 2020/21. Ehangwyd darpariaeth y rhaglen, ymatebwyd i sialensiau'r pandemig, a chynhaliwyd a datblygwyd ar y gwaith da a wnaed eisoes yn nwy flynedd gyntaf y rhaglen.

3) Dysgu Ffurfiol Atodol

Lluniwyd a darparwyd cyrsiau Cymraeg ar gyfer Aseswyr Budd Gorau (BIAS) ym mis Ebrill 2021.

Ar ôl adnabod yr angen am hyfforddiant yn narpariaeth y Cyngor ym maes Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid, cydweithiodd dwy swyddog yn y maes, Lynne Regan a Judith Andrews, â'r Swyddog Hyfforddi Cymraeg Gwaith i gynllunio 3 chwrs hyfforddi un awr arbennig – 1 i aseswyr heb sgiliau Cymraeg; 1 i aseswyr oedd yn dysgu Cymraeg; ac 1 i aseswyr rhugl.

Amcanion y cyrsiau oedd:

Grwp Un – darparu'r cynnig gweithredol yn SSWB(W)A yn Gymraeg

Grwp Dau - darparu'r cynnig gweithredol yn SSWB(W)A yn Gymraeg; ac ymgyfarwyddo a thermau ac ymadroddion perthnasol i'r MCA a DOLS a dod yn hyderus wrth eu defnyddio.

Grwp Tri - ymgyfarwyddo â thermau ac ymadroddion perthnasol i'r MCA a DOLS a dod yn hyderus wrth eu defnyddio; dod yn hyddysg yn y termau cyfreithiol a thechnegol perthnasol yn ymwneud â MCA a DOLS a magu hyder i'w defnyddio.

Tudalen 9

Darparwyd y cyrsiau ym mis Ebrill 2021 a chaed ymateb ffafriol iddynt o blith y mynychwyr. Buont hefyd yn destun diddordeb ar draws y sector y tu allan i Geredigion.

Adnabuwyd yn eu fformat hefyd botensial i ddarparu mwy o gyrsiau bychain ar gyfer anghenion iaith adrannau penodol o'r Cyngor yn y dyfodol, a gweithredir ar hyn yn 2021/22.

4) Dysgu Anffurfiol

Cynhaliwyd Clwb Cinio yn wythnosol ar Zoom, gyda digwyddiad Clwb Cinio misol. Mynychwyd y Clwb Cinio gan tua 12 mynychwr bob wythnos. Mynychwyd y digwyddiadau gan tua 25 mynychwr bob mis.

O ran digwyddiadau, eleni cynhaliwyd:

Mis Tachwedd: Cwis Clwb Cinio.

Mis Rhagfyr: Parti Nadolig Clwb Cinio.

Mis Chwefror: Gig Clwb Cinio – Owen Shiers yn canu caneuon o Geredigion.

Mis Mawrth: Clwb Cinio ar y cyd rhwng rhaglenni Cymraeg Gwaith Ceredigion a Chonwy – Owen Shiers a Gwilym Bowen Rhys yn canu, gyda chyfleoedd sgwrsio rhannol-strwythuredig rhwng dysgwyr y ddwy raglen.

Mis Mawrth: Cyngerdd y Gwanwyn – digwyddiad ar y cyd â Dysgu Cymraeg Ceredigion, Powys a Sir Gar. Gwahoddwyd dysgwyr Ceredigion i ymuno â dysgwyr y rhaglen gyhoeddus ar gyfer eu digwyddiad diwedd tymor, ar ôl trefnu'r digwyddiad ar y cyd rhwng y ddwy raglen.

5) Cydnabyddiaeth Genedlaethol

Mae Cynllun Cymraeg Gwaith Ceredigion yn uchel ei barch yn genedlaethol ym maes Dysgu Cymraeg. Gwelwyd hyn ar ei fwyaf eglur yn y Gwobrau Cymraeg Gwaith Cenedlaethol ar ddiwedd mis Mawrth 2021, lle dathlodd Ceredigion lwyddiant triphlyg.

- i) Daeth un o fyfyrwyr y Cynllun, Mariolina Lai, sy'n Gynorthwydd Gofal Dydd ym Min-y-Môr, yn 1af yn y categori 'Dysgwr sydd wedi gwneud y cynnydd gorau ar lefelau Sylfaen+'
- ii) Daeth un arall o fyfyrwyr y Cynllun, Alison Newby, sy'n Diwtor Rhifyddeg, Llythrennedd a Threfniadaeth Busnes gyda Dysgu Bro, yn 2il yn y categori 'Dysgwr lefel Sylfaen+ sy'n gwneud y Defnydd Gorau o'r Gymraeg at bwrpas Gwaith'
- iii) Daeth Dewi Huw Owen, Swyddog Hyfforddi Cymraeg Gwaith y Cyngor, yn 2il yn y categori 'Tiwtor Cymraeg Gwaith y Flwyddyn' ar ôl derbyn llawer o enwebiadau oddi wrth y dysgwyr.

Gwelir yn achos Mariolina ac Alison effaith y Cynllun ar wella ac ehangu gallu staff y Cyngor i ddarparu gwasanaethau amrywiol drwy gyfrwng y Gymraeg. Gwelir yn

Tudalen 10

achos Huw gydnabyddiaeth o werthfawrogiad y dysgwyr o ansawdd y Cynllun a phroffesiynoldeb y sawl sy'n ei drefnu a'i ddarparu.

6) Cymraeg Gwaith 2021/22

Mae'r rhaglen Cymraeg Gwaith ar gyfer blwyddyn academiaidd 2021/22 yn fwy eang ac uchelgeisiol nag erioed o'r blaen. O ran Dysgu Ffurfiol, darperir addysg i fwy o fyfyrwyr (dros 90), mewn mwy o ddsbarthiadau (8) ar draws mwy o lefelau dysgu (6) nag erioed o'r blaen. O ran Dysgu Anffurfiol, mae trefniadau ar y gweill i ail-lansio rhaglen Ffrind Iaith y Cyngor ar gyfer gweithio ar-lein, a bydd arlwy Clwb Cinio'r rhaglen yn ehangu i gynnwys digwyddiadau ar y cyd â rhaglenni Cymraeg Gwaith Conwy a Chaerdydd. O ran Dysgu Ffurfiol Atodol, mae cynlluniau ar y gweill i ddarparu mwy o gyrsiau arbennig i adrannau o'r Cyngor ar fformat y cwrs a ddarparwyd i'r Aseswyr Budd Pennaf. Drwy'r camau hyn oll y bydd rhaglen Cymraeg Gwaith Cyngor Sir Ceredigion yn symud yn bwrpasol i mewn i'w phedwaredd flwyddyn.

Cyngor Sir Ceredigion

ADRODDIAD I'R:	Pwyllgor Iaith
DYDDIAD:	22 Tachwedd 2021
LLEOLIAD:	Zoom
TEITL:	Adroddiad ar waith Theatr Felin-fach
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Diweddaru'r Pwyllgor ar weithgaredd Theatr Felinfach 2020-21 ac amlinellu cynlluniau'r dyfodol

CEFNDIR: Gweithgaredd 2020-21

Yn ystod 2020-21 mae Theatr Felin-fach wedi canolbwyntio ar ddatblygu gweithgareddau creadigol, digidol a hynny er mwyn sicrhau bod cyfleoedd i drigolion o bob oed o Geredigion, a thu hwnt, gael y cyfle i glywed, defnyddio a dathlu'r iaith Gymraeg a'i diwylliant. Fel pawb, fe ddechreuon ni wrth ein traed gan adeiladu hyder ac ystod o gyfleoedd yn ystod y cyfnodau clo.

Datblygwyd plattform digidol Dychmygus ar ein tudalennau cymdeithasol yn bennaf ar gyfer plant a phobl ifanc, gwnaethom hefyd greu cynnwys a gweithgareddau ar gyfer oedolion a phobl hŷn hefyd.

Yn ystod 2020, gwnaethom gyrraedd dros 360,000 o ddefnyddwyr drwy ein tudalennau Facebook, Trydar ac Instagram gyda gweithgareddau amrywiol fel Dramâu Meicro, Sesiynau Dawns a Choluro a sesiynau drama.

Sefydlwyd Gŵyl yr Enfys yn ystod 2020 gan y theatr – gŵyl ddigidol gan dynnu dros 20 o bartneriaid amrywiol at ei gilydd i gyfrannu cynnwys ar themâu, lechyd Da Ceredigion, Ceredigion Greadigol, Cymunedau Ceredigion a Dathlu Ceredigion. Cymraeg oedd prif iaith yr ŵyl, gyda rhai cyfraniadau dwyieithog a Saesneg. Cyrhaeddodd yr ŵyl dros 80,000 o bobl drwy ymweliadau i wefan gwyllyrenfys.cymru ac i'n tudalennau cymdeithasol.

Un o'r sialensau mwyaf yn ystod 2020 oedd creu a darlledu pantomeim cymunedol, digidol a ddatblygwyd, sgriptiwyd a pherfformiwyd gan wirfoddolwyr o'r gymuned. Serch y sialens o greu fersiwn ddigidol o sioe fawr, fyw, bu'n brofiad hwylus i'r cast a chriw a denwyd dros 2,600 o wylwyr/cynulleidfa.

Yn ystod 2021 rydym wedi datblygu gwaith newydd, er enghraifft Bore Da Drama yn ddigidol, sef sesiynau drama ar gyfer plant a phobl ifanc a addysgir yn y cartref.

Lansiwyd prosiect ar gyfer bobl ifanc fydd yn cyfuno grwpiau plant a phobl ifanc y theatr, y Clwb Drama, yr Ysgol Berfformio a Cwlltwr, theatr ieuenctid a byddant yn cael cyfle i weithio gydag artistiaid gwadd proffesiynol mewn amryw o feysydd.

Tudalen 12

Lansiwyd prosiect Cadw Cyswllt gydag aelodau hŷn y grŵp Hwyl a Hamdden, gwnaeth yr artist Elin Vaughan Crowley greu gwaith celf oeddyn sail i gardiau post wnaeth yr aelodau ddanfon i'w gilydd er mwyn cadw cyswllt.

Datblygwyd pecyn o ffilmiau lles ar gyfer pobl ifanc a'u teuluoedd gyda'r ymarferydd lles, Catrin Ahmun.

Gweithgareddau eraill:

- Micro-ddramâu i blant / pobl ifanc berfformio gartref
- Gêmau / gweithgareddau dawn / symud - sesiynau fideo byr
- Gweithgareddau Crefft i blant a theuluoedd - tiwtorialau fideo
- Amser Stori - recordiad o stori Gymraeg i blant ifanc
- Tic-toc - sesiynau canu, symud a stori i blant bach
- Tiwtorialau Colur Theatr a Chreadigol - ffilm
- Prosiect Ysgol Berfformio - Defnyddio Teams i ddatblygu perfformiadau dramâu meicro
- Creu adnodd Gêmau Torri lâ ar gyfer ysgolion
- Cynhyrchu ffilm ddwyieithog yn nodi Diwedd Rhyfel yn Ewrop (Diwrnod VE) - prosiect ar y cyd gyda'r Gwasanaeth Lles ac Ymddygiad a'r Gwasanaeth Ieuentid
- Prosiect Tân ar y Comin, cyfuno recordiad newydd o'r nofel a gwaith celf ar ffurf ffilm yn dehongli bob pennod o'r nofel. Erbyn hyn mae Y Lolfa wedi cyhoeddi'r recordiad fel llyfr llafar ar Audible

Cawsom ein cynnwys ar restr hir Gwobr Dyngarol Achatas 2020 mewn cydnabyddiaeth am ein gweithgareddau digidol mewn ymateb i'r pandemig, ymhlith 120 sefydliad trwy Brydain.

Wrth gynllunio ein darpariaeth yn ystod 2020-21 rydym wedi ceisio sicrhau bod cyfleoedd creadigol a chymdeithasol i drigolion Ceredigion a thu hwnt, o bob oed. Yn arferol, mae ein dangosyddion yn adrodd ar y cyfleoedd wyneb yn wyneb "go iawn" sydd yn digwydd wrth ddod â phobl at ei gilydd yn y theatr neu mewn canolfannau eraill. Datblygwn oddeutu 40,000 o gyfleoedd "go iawn" yn arferol.

Gwersi a Ddysgwyd o weithredu'n ddigidol:

Rhai o'r prif bethau a brofwyd ac a ddysgwyd gennym oedd:

- Mae gwerth i ddarpariaeth digidol
- Mae tlodi digidol yn gwadu cyfleoedd i rai
- Bu datblygu a darparu cyfleoedd i bobl hŷn yn heriol
- Bydd modd cyfuno darpariaeth "go iawn" a digidol i'r dyfodol
- Mae "danto" neu flinder digidol yn gallu effeithio defnyddwyr a darparwyr
- Gall "cyrraedd" bobl amrywio o ymwneud llawn i "sgrolio heibio"

Yn amlwg mae cyrhaeddiad digidol yn llawer ehangach a gwyddom ei fod yn amrywio o ymwneud yn llawn i "sgrolio" drwy weithgareddau. O'n profiad ni, rhai o'r prif ofidiau mae'r pandemig wedi ei amlygu yw tlodi digidol a chynhwysiant, cyrraedd pobl hŷn a "danto" neu flinder digidol.

Nawr a'r Dyfodol:

Tudalen 13

Yn ystod tymor yr Hydref 2021, rydym wedi dechrau cynnal a threfnu sesiynau wyneb yn wyneb:

- Prosiect creadigol gyda Chanolfan y Môr
- Ail-sefydlu sesiynau Tic-toc i blant hyd at 3 oed a'u teuluoedd
- Sesiynau dawns mewn ysgolion
- Sesiynau ar gyfer Canolfan Deulu Llanbedr Pont Steffan
- Hwyl a Hamdden
- Hyfforddi Stiwardiaid a Gwirfoddolwyr Blaen Tŷ Theatr Felinfach

Rydym hefyd yn mynd i lwyfannu Pantomeim Nadolig ar lwyfan y theatr yn ystod 4-11 Rhagfyr, hwn fydd y prosiect byw cyntaf ers dechrau 2020 gyda phob mesur posib mewn lle er mwyn creu profiad diogel i'r cast a chynulleidfa.

Wrth i ni edrych tuag at y dyfodol, byddwn yn:

- Cynllunio a gweithredu er mwyn ail-agor a chyfrannu at ail-adeiladu hyder cymunedol trwy raglenni gwaith Theatr Felinfach
- Cynnal ac ail-gydio ac ail-adeiladu yn ein perthynas wyneb-yn-wyneb gyda
 - Cyfranogwyr
 - Cynulleidfa
 - Gwirfoddolwyr
- Ymgorffori egwyddorion ein Contract Diwylliannol gyda Chyngor Celfyddydau Cymru – gweithredu er budd pawb a chyrraedd mwy o amrywiaeth o gyfranogwyr a chynulleidfaoedd
 - Cydweithio â chonsortïwm o theatrau eraill dan arweiniad Theatr Mwldan ar brosiect ffrydio cynnyrch theatr yn fyw i gynulleidfaoedd ar draws y gorllewin
 - Gweithredu cynllun newydd Diben, i weithio gyda phlant a'u teuluoedd sy'n fregus
 - Datblygu pecyn digidol traws-wasanaeth i hybu potensial ein cyfraniad i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru newydd a chydweithio gydag ysgolion i ddatblygu elfennau o'r cwricwlwm
 - Sefydlu prosiect a phartneriaeth newydd gydag uned addysg arbennig, Canolfan y Môr
 - Gweithredu prosiect Gorwel a Gwreiddiau ar y cyd â Cered, gyda chefnogaeth Cynnal y Cardi.
 - Cynllunio prosiectau a sioeau i gyfrannu at Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2022
 - Datblygu sioe fydd yn dathlu a choffau cerddoriaeth Ail Symudiad
 - Gwella adnoddau Theatr Felinfach

Tudalen 14

Heriau

- Ail-agor, ail-sefydlu gweithgareddau, denu cyfranogwyr a chynulleidfaoedd ar ôl y cyfnodau clo
- Adeiladu ffrydiau incwm yn ôl
- Cyflwr ac ansawdd yr adeiladau a'r adnoddau
- Patrymau cyfranogi a mynychuadau cynulleidfa yn newid yn sgil y pandemig
- Mae her o'n blaenau a chonsyrn am adfer y gwasanaeth, adennill ein cynulleidfaoed a'n cyfranogwyr a sut y gallwn weithredu'n ymarferol ac economaidd er budd a lles ein cymunedau.

ARGYMHELLIAD:

Bod y Pwyllgor Iaith yn derbyn adroddiad blynyddol THF ac yn nodi gwaith y theatr fel darparydd arbenigol celfyddydau cymunedol sy'n hybu'r Gymraeg a Dwyieithrwydd ac sy'n canolbwyntio ar adfer ac ail-sefydlu gweithgareddau cymdeithasol cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i drigolion Ceredigion.

Enw Cyswllt:
Dwynwen Lloyd Llywelyn

Swydd:
Pennaeth Theatr
Felinfach a'r Campws
Dyddiad yr Adroddiad: 31/10/21

Cyngor Sir Ceredigion

ADRODDIAD I'R:	Pwyllgor Iaith
DYDDIAD:	22.11.2021
LLEOLIAD:	Zoom
TEITL:	Adroddiad Blynyddol Cered: Menter Iaith Ceredigion
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Diweddaru aelodau ar weithgaredd Cered yn ystod y cyfnod Ebrill 2020 - Mawrth 2021 gan roi trosolwg o lwyddiannau ac amlinellu rhaglen waith ar gyfer 2021-22

CEFNDIR:

Rhagair

Yn debyg iawn i wasanaethau eraill y Cyngor bu 2020-21 yn flwyddyn heriol i Cered . Yn dilyn cau'r swyddfa ar y 16eg o Fawrth bu rhaid addasu ein rhaglen waith a chanfod ffyrdd newydd o gysylltu gyda'r gynulleidfa er mwyn parhau i gyflawni prif nod ac amcanion y Fenter yng nghyswllt yr iaith Gymraeg.

Er gwaethaf yr heriau llwyddodd Cered i ddarparu rhaglen amrywiol ac arloesol o weithgaredd gan ddenu cynulleidfaoedd hen a newydd.

Bu rhywfaint o newid yng nghyswllt strwythurau rheolaeth y Fenter yn ystod y cyfnod. Mae'r Fenter yn rhan o Isadran Diwylliant y Gwasanaeth Ysgolion a Diwylliant dan arweinyddiaeth y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Meinir Ebbsworth. Ym mis Tachwedd 2020 penodwyd Rheolwr Cered yn Rheolwr Corfforaethol Diwylliant ac mae dyletswyddau a chyfrifoldebau Rheolwr Cered yn rhan o'r swydd honno.

Nod y Fenter

Prif nod Cered yw cefnogi, dylanwadu a datblygu'r defnydd o'r Gymraeg yng Ngheredigion er mwyn gosod y seiliau gorau posibl ar gyfer tyfu a datblygu'r Gymraeg ar lefel gymunedol a chymdeithasol, mewn addysg ac yn y byd gwaith. Mae Cered yn cyflenwi ystod o brosiectau i gynyddu'r defnydd o Gymraeg ymysg teuluoedd, plant a phobl ifanc, y gymuned a'r gweithle gan hybu a chefnogi gwasanaethau Cymraeg.

Cyfraniad y Fenter i strategaethau ehangach

Mae Cered yn gweithredu cynlluniau sydd yn cyflawni nod y Fenter ynghyd a blaenoriaethau strategol Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr – Strategaeth Iaith Llywodraeth Cymru sef: cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a chreu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun.

Tudalen 16

Mae gwaith Cered hefyd yn adlewyrchu blaenoriaethau Strategaeth Iaith Ceredigion 2018-23, strategaeth sydd yn nodi bod cynaliadwyedd yr iaith Gymraeg yn ddibynnol ar y broses o gryfhau cymunedau Cymraeg trwy ddarparu digon o gyfleoedd addysgol, diwylliannol a chymdeithasol i ddefnyddio'r iaith yn ddyddiol.

Yn ogystal mae gwaith y Fenter yn cefnogi Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2018-21 a'r amcan corfforaethol i gryfhau a chynyddu defnydd o'r Gymraeg. Fel Menter sydd yn gweithredu fel rhan o Gyngor Sir Ceredigion mae cyfleoedd amlwg i gydweithio a chyd-gynllunio'n agos gyda nifer o wasanaethau'r Cyngor gan gynnwys gwasanaethau ysgolion a Dysgu Gydol Oes er mwyn galluogi'r Fenter i gyflawni ei amcanion fel sbardun a hwylusydd o safbwynt cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.

Cyllido

Mae Cered yn derbyn cyllid craidd trwy Grant Hybu a Hwyluso Defnydd y Gymraeg Llywodraeth Cymru. Yn 2020-21 derbyniwyd grant o £120,626.00 gyda gweddill cyllid Cered yn dod trwy law Cyngor Sir Ceredigion.

Mae'r cynnig grant blynyddol oddi wrth y Llywodraeth yn seiliedig ar gyfres o dargedau penodol sy'n seiliedig ar y thema strategol "Cynyddu Defnydd o'r Gymraeg". Disgwylir i'r Fenter adrodd ar gynnydd yn erbyn y targedau hyn yn chwarterol.


Yn 2020-21 roedd Cered hefyd yn derbyn cyllid trwy brosiect Helo Blod Llywodraeth Cymru. Caiff y prosiect hwn ei gydlynu gan Mentrau Iaith Cymru sy'n gyfrifol am ddosrannu'r arian grant a gaiff ei ddefnyddio i ariannu swydd llawn amser Swyddog Helo Blod.

Yn ogystal gall Cered lunio ceisiadau am arian grant o ffynonellau eraill er mwyn gweithredu prosiectau penodol. Ni fu unrhyw brosiectau cyllid allanol yn ystod 2020-21.

Strwythur a Staffio

Erbyn diwedd 2020-21 roedd strwythurau a llinellau rheoli Cered fel a ganlyn:

Tudalen 17



Partneriaid

Mae cydweithio gyda phartneriaid yn rhan bwysig o waith y Fenter Iaith. Trwy fabwysiadu'r egwyddor o ymgynghori a chydweithio, mae Cered yn awyddus i sicrhau nad oes dyblygu darpariaeth, a thrwy gynnig cefnogaeth i weithgaredd sefydliadau eraill, i ychwanegu gwerth at y rhaglenni hynny.

Mae partneriaid Cered yn cynnwys y canlynol:

Llywodraeth Cymru, Mentrau Iaith Cymru, Cymraeg i Oedolion – Prifysgol Aberystwyth, Theatr Felinfach, Mudiad Meithrin, Urdd Gobaith Cymru, Clwb Ffermwyr Ifanc, Menter Iaith Sir Benfro, Mentrau Iaith Rhanbarth y De Orllewin, CAVO, Coleg Ceredigion, Adran Gofal Plant Cyngor Sir Ceredigion, Gyrfa Cymru, Theatr Genedlaethol Cymru, Canolfan y Celfyddydau, Theatr Mwldan, Pwyllgorau Cymunedol.

Gweithgaredd Cered 2020-21

Prif benawdau

- Sicrhau £120,6626 o arian grant oddi wrth y Llywodraeth yn 2020-21
- Cytunwyd ar dargedau ar gyfer y cyfnod hwn gyda'r Llywodraeth ym mis Rhagfyr 2019 ond o ganlyniad i'r pandemig gorfodwyd Cered i adolygu cynlluniau a chytunwyd ar dargedau byr-dymor newydd gyda'r Llywodraeth ym mis Mehefin 2020. Seiliwyd y targedau ar ffordd newydd, ddigidol o weithio
- Adroddiadau chwarterol wedi eu cwblhau gan ddangos cyrhaeddiad yn erbyn targedau diwygiedig y Llywodraeth
- Darparwyd rhaglen arloesol o ddigwyddiadau digidol trwy gyfrwng sianeli cyfryngau cymdeithasol amrywiol
- Sefydlwyd partneriaeth newydd gyda Menter Iaith Sir Benfro gan greu tudalen Facebook newydd Cica Corona ar y cyd – bu hyn yn fodd i rannu sgiliau tîm ehangach o staff a lleihau dyblygu darpariaeth
- Cyfryngau Cymdeithasol:

Tudalen 18

	CERED	Cica Corona
Nifer y postiadau ar Facebook	1498	1828
Ymgysylltu	14,080	103,020
Cyrhaeddiad	293,756	1,305,662

- Cynnal 280 o weithgareddau rhyngweithiol ar lein
- 15,842 yn cymryd rhan neu'n ymuno

Manylion y Ddarpariaeth

Gweithredwyd rhaglen amrywiol o weithgaredd ddigidol yn cynnwys y canlynol:

Gwaith gyda Theuluoedd

- Sesiynau Hwyl i Blant – sesiwn ddigidol ddwywaith yr wythnos yn cynnig gweithgareddau amrywiol – Celf a Chrefft, Stori a Chan, Garddio, Coginio ayb
- Sesiynau rhyngweithiol gyda Siani Sionc
- Sesiynau rhyngweithiol gyda Do Re Mi

Gwaith gyda Phlant a Phobl Ifanc

- Clwb perfformio 'Clwb Creu' - mewn partneriaeth a Theatr Genedlaethol Cymru – cyfres o weithgareddau perfformio trwy gyfrwng Zoom
- Sesiynau Cymraeg yn y Gweithle i Ysgolion Uwchradd trwy gyfrwng Teams
- Cwis Dim Clem – darparu rowndiau rhanbarthol i ysgolion Ceredigion trwy gyfrwng Zoom
- Gwener Grwfi - hanner awr o adloniant i blant ysgolion cynradd trwy gyfrwng Zoom bob prynhawn Gwener yn cynnwys cwis, cerddoriaeth a helpa drysor.
- Ymweliadau wyneb i wyneb â dosbarthiadau Blwyddyn 7 ag 8 yn Ysgol Penweddig i drafod Agweddau at y Gymraeg

Gwaith yn y Gymuned

- Sesiynau Sgwrsio ar Zoom gyda Dysgwyr
- Sesiynau cerddorfa ukulele lwcadwli trwy gyfrwng Zoom a bellach wyneb yn wyneb
- Theatr Soffa – ymarferion a pherfformiadau cymunedol o "Dan y Wenallt" trwy gyfrwng Zoom
- Gwaith cynllunio prosiect gymunedol Yr Ardd – Llandysul
- Cwisys mawr y Gorllewin – cwisys rhithiol wedi eu trefnu ar y cyd rhwng Mentrau Iaith y Gorllewin
- Dished am Ddou – sesiwn gymdeithasol ddyddiol dros Zoom
- Pod Rhod – podlediadau wythnosol yn seiliedig ar gyfweiliadau gyda gwesteion amrywiol
- Cwmni Rôl Cinio – cyfres o sgysiau byw trwy gyfrwng Zoom gyda gwesteion amrywiol
- Podlediadau a rhaglenni radio mewn partneriaeth a Radio Aber

Tudalen 19

- Rhaglen wythnosol o weithgareddau ar dudalen Facebook Cica Corona a Cered gan gynnwys: Dywediad y Diwrnod, Cwis wythnosol, Slawer Dydd, Llun yr wythnos, Cwis yr Wythnos, Ar Gered, Enwau Blodau ayb

Cynllun Helo Blod

- Sgyrsiau cynghori busnesau trwy gyfrwng Zoom
- Asesiadau a chyflwyniadau Siarter Iaith

Yn ystod y flwyddyn bu staff y Fenter hefyd yn cynorthwyo ymdrechion y Cyngor i wasanaethu'r cyhoedd yn ystod y pandemig trwy gydlynw a chefnogi gwaith yr Hybiau Gofal Plant a thrwy ymuno a'r Tîm Olrhain Cysylltiadau.

Cynlluniau 2021-22

Cyflwynwyd cais am grant Hybu a Hyrwyddo'r Gymraeg ar gyfer 6 mis cyntaf y cyfnod 2021-2022 i Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2021. Cyflwynwyd ail gais am y 6 mis olynol ym mis Medi 2021. Mae'r targedau hynny wedi eu seilio ar barhau gyda gwaith digidol ond gan ail gyflwyno gwaith wyneb yn wyneb yn raddol pan bod hynny'n bosib.

Mae rhai targedau ychwanegol wedi eu cynnwys megis y canlynol:

- Gorwel a Gwreiddiau (prosiect gwreiddiol Creu 2020) – prosiect mewn partneriaeth a Theatr Felinfach yn seiliedig ar grynhoi a chasglu atgofion cymunedol, gwaith gyda phobl ifanc a busnesau a chynrychiadau cymunedol. Rhoddwyd hwn ar waith yn wreiddiol yn 2019 ond gorfodwyd gohirio gweithredu – cyflwynwyd cais am arian LEADER Cynnal y Cardi a derbyniwyd cadarnhad o grant ym mis Ebrill 2021 . Bydd y gwaith yn dechrau yn ystod y misoedd nesaf
- Cynllun Gwirfoddoli mewn cydweithrediad a safleoedd hanesyddol a threftadaeth – cyflwynwyd cais am grant i ariannu prosiect peilot ar y cyd â Chastell Aberteifi - disgwylir canlyniad y cais hwnnw yn yr wythnosau nesaf

Bydd Cered hefyd eleni yn ailgydio yn y gwaith o hyrwyddo gweithgaredd yr Eisteddfod Genedlaethol ar draws y Sir trwy gynrychiolaeth ar bwyllgorau lleol a sirol a thrwy gydweithio gyda'r Eisteddfod ar brosiectau amrywiol gyda chymunedau a busnesau. Bydd gan y Fenter bresenoldeb ar faes yr Eisteddfod ar y cyd gyda Mentrau Iaith Cymru a Chyngor Sir Ceredigion.

Yn ogystal mae'r Fenter yn bwriadu ail gydio yn y prosiect Cadw ar Gof sef gwaith yn seiliedig ar dafodiaith yng nghyswllt byd natur. Mae Mentrau Iaith Cymru bellach yn bwriadu cyflwyno cais i HLF am arian i gefnogi nifer o brosiectau byd natur ar draws Cymru ac mae Cered wedi ei glustnodi fel un o'r ardaloedd a fydd yn gweithredu prosiect o'r math.

Wrth weithredu prosiectau ar sail targedau 2021-22 bydd Cered yn parhau i weithio i sicrhau cyswllt cyson staff y Fenter gyda chymunedau amrywiol ar draws y sir.

Blaenoriaethau Cered 2021-22

- Cynyddu defnydd o'r Gymraeg ar sail yr egwyddor bod angen:
Cysylltu/Cyfarparu/Grymuso/Galluogi

I gyflawni hynny byddwn yn :

- Gweithio tuag at gyflawni'r targedau a gytunwyd gyda'r Llywodraeth
- Codi ymwybyddiaeth am y Fenter trwy gyswllt staff a chymunedau
- Parhau i gefnogi gweithgaredd pwyllgorau canolog a lleol Eisteddfod 2022

ARGYMHELLIAD:

Bod y Pwyllgor Iaith yn derbyn yr adroddiad blynyddol fel cofnod o waith Cered yn ystod y cyfnod dan sylw ac yn nodi gwaith y Fenter wrth hyrwyddo a datblygu defnydd y Gymraeg yng Ngheredigion.

Enw Cyswllt: Non Davies
Swydd: Rheolwr Corfforaethol Diwylliant
Dyddiad yr Adroddiad: Hydref 2021

Cyngor Sir CEREDIGION County Council**ADRODDIAD I'R:** Pwyllgor Iaith**DYDDIAD:** 21/ 11 / 2021**LLEOLIAD:****TEITL:** Enwau Lleoedd Ceredigion**PWRPAS YR ADRODDIAD:** Rhoddwyd argymhellion i'r Cyngor eisoes gan Gomisiynydd y Gymraeg ynghylch enwau lleoedd, mae'r argymhellion hyn wedi mynd drwy ymgynghoriad â'r Cynghorau Cymuned ond mae angen penderfyniad terfynol gan y pwyllgor hwn.**CEFNDIR:**

Yn 2012 derbyniodd y Cyngor restr o argymhellion ynglŷn â safoni enwau lleoedd Ceredigion oddi wrth Gomisiynydd y Gymraeg. Roedd canllawiau'r Comisiynydd yn rhoi tri rheswm pennaf dros safoni enwau lleoedd yng Nghymru.

1. Sicrhau cydraddoldeb i'r Gymraeg a'r Saesneg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Pan ddefnyddir ffurf Gymraeg a Saesneg* enw gan y boblogaeth leol neu ehangach, mae'n bwysig bod y ddwy ffurf yn cael eu cydnabod a'u defnyddio, er enghraifft, ar arwyddion ffyrdd, ar fapiau ac mewn gohebiaeth.
2. Sicrhau bod rhestrau cyflawn, yn rhoi'r ffurf safonol yn ogystal â'r ffurf arall, ar gael i'r gwasanaethau brys.
3. Mewn achosion lle y mae dau sillafiad gwahanol o'r un enw, argymhellir, er eglurder, bod un sillafiad yn cael ei ddefnyddio fel ffurf safonol, yn unol ag orgraff y Gymraeg, lle bo hynny'n ymarferol.

Mewn cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Iaith (01/09/2014) penderfynwyd y byddai'r Swyddog Rheoli Cyfeiriadau yn cylchredeg y rhestr o enwau lleoedd Cymraeg i bob Cyngor Tref a Chymuned perthnasol i'w hystyried a'u cymeradwyo. Penderfynwyd hefyd y dylai'r Swyddog Rheoli Cyfeiriadau dderbyn argymhellion gan y Cynghorau Tref a Chymuned. Ar ôl cwblhau proses trydydd ymgynghoriad i dderbyn barn a sylwadau pob Cyngor Tref a Chymuned, dygwyd y mater hwn yn ôl gerbron y pwyllgor hwn i ystyried yr enwau lleoedd am y tro olaf a rhoi cymeradwyaeth derfynol.

Fel yr ydych yn ymwybodol eisoes, efallai, mae cyfrifoldeb ar Gomisiynydd y Gymraeg i ddarparu argymhellion ar ffurfiau safonol enwau lleoedd yng Nghymru. Nod y prosiect yw sicrhau cysondeb a chywirdeb ledled Cymru. Mae'r Comisiynydd wedi galw ynghyd banel o arbenigwyr yn y maes i'w gynghori ar ffurfiau safonol a materion cysylltiedig er mwyn sicrhau bod pob argymhelliad a roddir yn enw Comisiynydd y Gymraeg yn cael ei wneud ar sail ysgolheigaidd gadarn. Wrth lunio ei argymhellion mae'r Panel yn rhoi sylw dyledus i ystyr, hanes a tharddiad enwau lleoedd yn ogystal â'r defnydd cyfredol ohonynt, ac mae'n dilyn canllawiau penodol: Canllawiau Safoni Enwau Lleoedd Cymru. Fodd bynnag, yr Awdurdodau Lleol yn y pen draw sy'n gyfrifol am benderfynu ar y ffurfiau a ddefnyddir ganddynt am enwau lleoedd lleol.

Tudalen 22

Ysgrifennodd Comisiynydd y Gymraeg at yr Awdurdod (24/07/2018) yn ei hysbysu bod rhestr a argymhellir o enwau lleoedd wedi'i chyhoeddi erbyn hyn, ond mae'r Comisiynydd yn awyddus o hyd i weithio gydag Awdurdodau Lleol mewn perthynas â safoni terfynol enwau lleoedd lleol gan sicrhau bod y farn a'r arfer yn lleol yn sail i'r fersiwn derfynol. Yn dilyn ymgynghoriad gyda'r Cynghorau Tref a Chymuned dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae Cyngor Ceredigion wedi datblygu cronfa ddata o'r dewis a ffefrir ar gyfer enwau lleoedd lleol.

Mae'n ofynnol i'r Swyddog Rheoli Cyfeiriadau gyflwyno rhestr gynhwysfawr o enwau lleoedd lleol i'r Pwyllgor Iaith er mwyn iddo wneud argymhelliad i'r Cabinet y dylai'r rhestr leol hon o enwau lleoedd gael ei mabwysiadu yng Ngheredigion fel y ffurf safonedig. Pan fydd y Cabinet wedi cymeradwyo'r rhestr gynhwysfawr, fe'i rhennir hefyd gyda Chomisiynydd y Gymraeg, ac fe'i cyhoeddir.

Mae'r Swyddog Rheoli Cyfeiriadau yn ceisio cyngor gan y Pwyllgor Iaith mewn perthynas â:

